# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 20 Hydref 2014**

Amser:
**14.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalen 1)

**CLA(4)-25-14 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA449 - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol: Fe'u gwnaed ar: 24 Medi 2014; Fe'u gosodwyd ar: 1 Hydref 2014; Yn dod i rym ar: 31 Hydref 2014.

**CLA450- Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) (Diwygio) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 24 Medi 2014; 1 Hydref 2014; Yn dod i rym

ar: 22 Hydref 2014

**CLA451 - Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 1 Hydref 2014; Fe'u gosodwyd ar: 6 Hydref 2014; Yn dod i rym ar: 27 Hydref 2014

## 3 Papurau i'w nodi

**Datganiad Ysgrifenedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Dull i weithredu'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Ddeddf** (Tudalennau 2 - 5)
**CLA(4)-25-14 – Papur 2**- Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Barn resymedig y Comisiwn Ewropeaidd ar wastraff mercwri metelaidd** (Tudalennau 6 - 7)
**CLA(4)-25-14 – Papur 3**- Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

**Adroddiad Terfynol ar y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)** (Tudalennau 8 - 29)
**CLA(4)-25-14 – Papur 4**- Adroddiad Terfynol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir**
**20 Hydref 2014**

**CLA449 - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch pa bersonau o dramor a fydd yn gymwys neu'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai o dan y Ddeddf Tai 1996.

**CLA450 – Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy) (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

At ddibenion treth y gyngor, trinir eiddo sengl fel arfer sy'n cynnwys mwy nag un uned hunangynhaliol fel pe bai wedi ei ffurfio o'r un nifer o anheddau â'r nifer o unedau hunangynhaliol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod eiddo a ddefnyddir fel lloches yn cael ei drin fel un annedd at ddibenion y dreth gyngor, hyd yn oed os yw'r eiddo yn cynnwys mwy nag un uned hunangynhaliol.

**CLA451 - Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 ("y Rheoliadau") yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir baratoi cynllun datblygu ysgol sy'n cynnwys gwybodaeth benodol. Diben y cynllun hwn yw hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniadau addysgol mewn ysgolion a gynhelir a dyma gynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwella.

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MD/05115/14

David Melding AM
Chair
Constitutional & Legislative Affairs Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

LegislativeProgramme.TeamMailbox@wales.gsi.gov.uk

4 October 2014

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Medi ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ar waith yr is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd yr ymgynghoriad ar y rheoliadau i'w gwneud o dan y Ddeddf a'r ffordd y cânt eu gosod yn cael ei gynnal mewn dau tranche yn bennaf.

Rwy'n bwriadu i'r tranche cyntaf fod ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o 12 wythnos ym mis Tachwedd 2014. Yna rwy'n rhagweld cynnal ymgynghoriad ar yr ail tranche rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2015.

Mae'r tranche cyntaf yn ymwneud â darpariaethau craidd ynghylch cymhwysedd, asesu, cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol yn rhannau 2 i 4 y Ddeddf, ynghyd â darpariaethau yn rhan 7 ynghylch diogelu. Rwy'n bwriadu gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ym mis Mai 2015, gyda'r bwriad o roi cymaint o amser â phosibl i'r sector addasu i'r gofynion newydd cyn eu rhoi ar waith ar 6 Ebrill 2016. Mae gwybodaeth ychwanegol ynghlwm yn atodiad A ar y rheoliadau i'w gwneud yn y tranche hwn.

Bydd yr ail tranche yn canolbwyntio ar ran 6 y Ddeddf, gan ymdrin â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, a rhan 5 sy'n ymdrin â thalu am ofal, ynghyd â rhan 9 ar gydweithredu a phartneriaeth. Yn dilyn ymgynghoriad, fy mwriad ar hyn o bryd yw gosod y rheoliadau mewn perthynas â'r tranche hwn ym mis Tachwedd 2015.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Rwy’n gobeithio bod hyn yn egluro’r sefyllfa bresennol.

Best Wishes



**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

## Annex A

**Regulations to be made under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 – Tranche 1**

**Tranche 1 Key Timings (all regulations)**

Consultation (*November 2014 – January 2014*)

Regulations Laid before the NAFW (*May 2014*)

CIF (*6 April 2016*)

**Regulations**

| Part | Section | Subject | Title (proposed) | Procedure |
|---|---|---|---|---|
| 2<br><br>(*General Functions*) | 14 | Assessment of needs for care, and support for carers and preventative services | The Care and Support (population assessment (Wales) Regulations 201… | Negative |
| 2 | 16 | Promoting social enterprises | The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Social Enterprise, Co-operative and Third Sector) (Wales) Regulations 201… | Affirmative |
| 3<br><br>(*Assessing the needs of individuals*) | 30 | Regulations about assessment | The Care and Support (Assessment) (Wales) Regulations 201… | Negative |
| 4<br><br>(*Meeting needs*) | 32 | Determination of eligibility and consideration of what to do to meet needs | The Care and Support (Eligibility) (Wales) Regulations 201… | Super Affirmative |
| 4 | 50,51,52,53 | Direct Payments | The Care and Support (Direct Payments) (Wales) Regulations 201… | Negative |
| 5<br><br>(*Charging and Financial assessment*) | 64(4) and 55 | Care and support plans and support plans | The Care and Support (Care Planning) (Wales) Regulations 201… | Negative |
| 7<br><br>(*Safeguarding*) | 127(9) | Officers authorised to apply for Adult Protection and Support Orders | The Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer ) (Wales) Regulations 201… | Affirmative |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | 133 | Regulations about the National Board | National Independent Safeguarding Board Regulations 201… | Negative |
| 7 | 134(1), (3) and (6) 135(4), 136(3), 138 and 139 | Prescribing areas for new Safeguarding Boards and related matters concerning Board operations | The Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 201…<br><br>The Safeguarding Boards (General) (Wales) Regulations 201… | Negative<br><br>135(4) - Affirmative |
| 9<br><br>(*Co-operation and partnership*) | 166 | Partnership arrangements | The Care and Support (Partnership arrangement for population assessments (Wales) Regulations 201… | Affirmative |
| 11<br><br>(*Miscellaneous and General*) | 194 and 195 | Ordinary residence and disputes about ordinary residence | The Care and Support (Ordinary Residence) (Specified Accommodation) (Wales) Regulations 201…<br><br>The Care and Support (Disputes about Ordinary Residence, etc.) (Wales) Regulations 201… | Negative |

Eitem 3.2

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

CC: David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

13 Hydref 2014

Annwyl Carl

**Barn resymedig y Comisiwn Ewropeaidd ar wastraff mercwri metelaidd**

Mae swyddogion y Cynulliad wedi dwyn fy sylw at benderfyniad diweddar y Comisiwn Ewropeaidd i anfon barn resymedig i Lywodraeth y DU ynghylch ei methiant i drosi Cyfarwyddeb 2011/97/EU yn llawn, a chydymffurfio â hi, sef cyfarwyddeb sy'n ymwneud â storio gwastraff mercwri metelaidd.

Cyhoeddwyd hyn fel rhan o'r pecyn o achosion o dorri amodau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ddiwedd mis Medi, lle nodwyd y wybodaeth ganlynol yng nghyswllt y DU:

> **Environment: Commission asks United Kingdom to update mercury legislation**
> The European Commission is urging **the United Kingdom** to complete the enactment of an amendment to EU legislation on the storage of metallic mercury considered as waste in its domestic law (Directive 2011/97/EU). After examining amendments to the UK's Environmental Permitting regulations, and to Scotland's Landfill Regulations, the Commission is not convinced that this amendment to mercury storage legislation has been clearly and sufficiently enacted. The amendment concerns technical requirements for the temporary storage of metallic mercury, an element that is highly toxic to humans, ecosystems and wildlife element. A reasoned opinion is therefore being sent, and if the UK fails to act within two months, the case may be referred to the EU Court of Justice [http://europa.eu/rapid/press-release_MEMO-14-537_en.htm?locale=en]

Yn dilyn hynny, cysylltodd swyddogion y Cynulliad â'r Comisiwn Ewropeaidd i gadarnhau ai dim ond i'r Alban yr oedd y methiant yn berthnasol neu a oedd yn cynnwys Cymru a Lloegr. Cadarnhaodd cabinet Janez Potočnik, Comisiynydd

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA


Ffôn / Tel: 029 2089 8639
E-bost / E-mail: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

Amgylchedd yr UE, fod eu pryderon ynghylch y methiant i drosi'r Gyfarwyddeb yn llawn hefyd yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Mae methu â chydymffurfio â deddfwriaeth yr UE yn amlwg yn fater difrifol. Felly, mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at yr ymateb i'r farn resymedig, ac a ydych yn fodlon bod Cyfarwyddeb 2011/97/EU wedi'i throsi'n llawn yng Nghymru, ac a gynigir unrhyw gamau pellach i ymateb i'r pryderon a godwyd.

Anfonir copi o'r llythyr at David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan fod hwn yn fater sydd o ddiddordeb i'r ddau Bwyllgor.

Yn gywir,



**Alun Ffred Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

# Eitem 4.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon